



Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 11EG EBRILL, 2019**

Lleoliad

**Siambwr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 3 Ebrill 2019)

# **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

## **AELODAETH (15)**

### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Steve Collings  
Dafydd Owen  
Peter Read  
Sedd Wag x 2 - Plaid Cymru

Annwen Hughes  
Edgar Wyn Owen  
Elfed Williams

## **Annibynnol (4)**

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes  
Jason Wayne Parry

Eryl Jones-Williams  
Angela Russell

## **Llais Gwynedd (1)**

Y Cyngorydd  
Gareth Williams

## **Aelod Unigol (2)**

Y Cyngorydd  
Sion W. Jones

Sedd Wag - Aelod Unigol

## **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10.12.18 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

7 - 14

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

- a) 20.12.2018
- b) 28.01.2019

## 6. UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI

15 - 18

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Adran Amgylchedd

## 7. CYFLWYNO CYLCH GORCHWYL AR GYFER YSTYRIED CYNWYS POLISI TRWYDDEDU TACSIS UNEDIG DRAFT

19 - 22

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Adran Amgylchedd

# Eitem 4

---

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 10.12.18

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Edgar Wyn Owen, Jason Wayne Parry, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, Sïon Jones a Peter Read

Amlygwyd pryder ynglŷn â phresenoldeb rhai Aelodau. Nodwyd bod y mater wedi cael ei gyfeirio at y Swyddog Monitro a'r Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 o Fedi 2018 fel rhai cywir.

### 5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 10.09.2018 a 17.10.2018

### 6. ADOLYGU TREFNIADAU PROFION MECANYDDOL CERBYDAU TACSI

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Adran yr Amgylchedd yn argymhell trefniadau newydd ar gyfer profi cerbydau hacni a hurio preifat dros 10 oed. Amlygwyd bod hi'n ofynnol i bob cerbyd hacni a hurio preifat dderbyn prawf MOT safonol yn flynyddol gyda gorfodaeth ychwanegol am ddau brawf mecanyddol unwaith mae cerbyd yn cyrraedd 10 oed. Ategwyd bod y profion yn allweddol i sicrhau

diogelwch y cerbydau tacsï. Nodwyd bod y gofynion wedi eu hymgorffori fel amodau trwydded ac wedi eu mabwysiadu ym mholisi trwyddedu cerbydau tacsï'r Cyngor. Mae'r gofynion hefyd yn seiliedig ar y cyngor a geir yng nghanllawiau ymarfer da'r Weinyddiaeth Drafnidiaeth.

Nodwyd bod nifer o Gynghorau, oherwydd pryderon dros reoli safon a chysondeb profion mecanyddol, yn awdurdodi modurdai sydd yn gwasanaethu fflyd cerbydau'r Awdurdod i wneud profion mecanyddol ar gerbydau trwyddedig. Ategwyd y byddai yn fanteisiol oherwydd bod posib cadw rheolaeth dynn ar y safonau a bod cyfle hefyd i greu incwm i'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â nifer profion mecanyddol sydd eu hangen dros y 12 mis nesaf, nodwyd bod cynnal dau brawf ar geir dros 10 oed wedi cael eu cynnwys yn y niferoedd o fewn yr adroddiad. Ategwyd bod modurdai'r Cyngor yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r drefn ac er mwyn osgoi gormod o bwysau arnynt cynigir bod tri modurdy arall yn cael eu hawdurdodi fel rhai 'wrth gefn' yn ystod y cyfnodau prysur. Nodwyd bod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda'r Post Brenhinol i ddefnyddio eu modurdy ym Mangor fel un o'r modurdai wrth gefn gan fod y Post Brenhinol yn cadw at safonau cenedlaethol i brofi eu fflyd. Nid oedd y ddau fodurdy arall wedi eu hadnabod.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gofynion yr ail brawf, mynegwyd bod y prawf yn ehangach na MOT cyffredinol ac y bydd yn cynnwys e.e., cyflwr y car, arwyddion, gwregys diogelwch a darpariaeth cymorth cyntaf. Ategwyd bod y rhestr gwirio yn un sylweddol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfnod terfynol defnydd car fel tacsï nodwyd mai 12 oed oedd y cyfnod a bod hyn yn cael ei adolygu.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â monitro safonau'r 16 modurdy (ar draws Gwynedd) sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwneud profion, nodwyd bod archwiliadau yn cael ei gynnal gan swyddog trwyddedu. Bydd pob modurdy sydd yn gymwys i gynnig MOT hefyd yn gorfod bod yn gymwys i ofynion VOSA (Vehicle and Operator Services Agency).

Amlygwyd pryder gan un o'r Aelodau y byddai rhai cwmnïau tacsï yn gwyro oddi ar y drefn, ond cadarnhawyd y byddai'n parhau yn orfodol i geir hyd at 10 oed gael eu profi gan un o'r 16 modurdy awdurdodedig. Ategwyd y byddai'n orfodol i gerbydau dros 10 oed fynd at un o fodurdai'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhelliad gan gymeradwyo trefniant newydd isod o brofi cerbydau dros 10 oed.**

- **Fod ceir dros 10 oed sydd angen dau brawf mecanyddol y flwyddyn yn cael eu cyfeirio at fodurdai'r cyngor yng Nghibyn, Pwllheli a Dolgellau i gael y profion.**
- **Fod 3 modurdy arall yn cael eu hawdurdodi fel modurdai 'wrth gefn' yn ystod cyfnodau lle mae modurdai'r Cyngor yn rhy brysur i wneud y profion**

- Fod trefn yn cael ei sefydlu i alluogi perchnogion cerbydau i allu gwneud trefniant a thalu i gael profi cerbyd ym modurdai'r Cyngor drwy ffurflen electronig hunanwasanaeth
- Fod trafodaeth yn digwydd gyda chanolfan profi cerbydau'r Post Brenhinol yn Llandygai er mwyn ceisio darganfod os fyddai diddordeb ganddynt i gynnig gwasanaeth profi cerbydau tacsî.
- Fod Modurdai'r cyngor yn parhau i dderbyn ceir i'w profi yn achlysurol sydd yn cael eu cyfeirio ar hap gan swyddog gorfodaeth Trwyddedu yn unol â phwerau archwilio o dan adran 68 y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; beth bynnag fo oedran y cerbyd.
- Fod bwriad i'r trefniant fod yn weithredol o Ebrill 2019
- Fod cerbydau o dan 10 oed yn parhau i gael eu profi yn unol â'r trefniant presennol

## **7. HYSBYSU'R PWYLLGOR O'R CAMAU NESAF AR GYFER PARATOI POLISI TRWYDDEDU TACSI UNEDOL NEWYDD**

Cafwyd diweddariad ar lafar bod y polisi unedol yn parhau i gael ei ddatblygu gyda'r bwriad i gyflwyno drafft ym mis Mawrth. Amlygwyd y bwriad i sefydlu grŵp tasg a gorffen i edrych ar brif agweddau'r Polisi Unedig Trwyddedu Tacsî cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Ategwyd bod bwriad hefyd i sefydlu cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp.

### **DERBYNIWYD y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:30am

---

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 20.12.2018

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Steve Collings a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Owain Williams (Swyddog Gorfodaeth), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau) ac Alun M Roberts (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd) – Arsylwi

### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwysu'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Amlygodd y Cyfreithiwr yr angen am eglurder dros yr hyn oedd i'w benderfynu.

- a) Mai cais am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat oedd gerbron yr Is bwyllgor. Nid oedd cais gerbron am drwydded gweithredu ac felly ni fyddai penderfyniad yr Is bwyllgor yn rhagdybio effaith ar drwyddedau eraill. Byddai hynny i'w drafod mewn is bwyllgor arall.

- b) Nad diddymiad oedd canlyniad y gwrandawriad. Nodwyd bod diddymiad yn awgrymu trwydded gyrrwr sydd mewn grym. Nid yw'r drefn adnewyddu yn gweithredu fel adolygiad o drwydded gyfredol ond fel cais am drwydded gyrrwr newydd i fod yn weithredol o ddyddiad terfynol y drwydded gyfredol. Yr unig ganlyniad posib o'r gwrandawriad fyddai caniatáu neu wrthod.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Nodwyd ei fod wedi bod yn rhedeg y busnes ers dros 20 mlynedd a bod llythyrau geirda wedi eu cyflwyno yn nodi ei fod yn gyflogwr da ac yn uchel ei barch o fewn y gymuned leol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag annilysrwydd yswiriant y car a archwiliwyd nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd bod y cerbyd gydag yswiriant llawn, nad oedd unrhyw risg i'r cyhoedd, bod y car yn ddiogel ac nad oedd yr ymgeisydd wedi ei ganfod yn euog. Dadleuodd y Swyddog Gorfodaeth bod yswiriant cynhwysfawr ar gyfer y cerbyd yn annilys ar amser yr archwiliad a chyflwynwyd dyfyniad o'r polisi yswiriant perthnasol gyda'r cofnod DBS.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawriad
- llythyrau geirda
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd ffurfiol am ymddygiad afreolus neu ddefnyddio geiriau bygythiol, ymosodol neu sarhaus sydd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod gan Heddlu Gogledd Cymru (Chwefror 2014) yn groes i'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Ar ddau achlysur, (2014 a 2015) cyflwynodd yr ymgeisydd ffurflenni adnewyddu trwydded gyrrwr lle methodd ddatgan ar ei ffurflen gais rybudd 2014 oedd yn groes i amod trwyddedu paragraff 6 o bolisi trwyddedu'r Cyngor.

Ym mis Ionawr 2018 cafodd yr ymgeisydd ei ddyfarnu yn euog gan Lys Ynadon Caernarfon i un cyhuddiad o ganiatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio fel cerbyd hurio preifat heb drwydded gyfredol sydd yn groes i adran 46 (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Cafodd ddirwyo o £450.00, gorchymyn i dalu costau o £200 a gordal i'r dioddefwr o £45. O ganlyniad i'r cyhuddiad bu i'r ymgeisydd dderbyn rhybudd o diddymiad trwydded gyrrwr gan yr Awdurdod Trwyddedu (Chwefror 2018) yn unol â darpariaeth adran 61 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Cafodd y diddymiad ei wneud gan swyddog o dan drefniadau hawliau dirprwyedig ac nid



gan Is Bwyllgor. Fe gyflwynodd yr ymgeisydd apêl i Lys Ynadon am y diddymiad a daethpwyd i drefniant mewn gwrandawriad (Mehefin 2018) bod yr ymgeisydd i dynnu'r apêl yn ôl, y byddai'r Cyngor (Adran Trwyddedu) yn tynnu'r diddymiad yn ôl, a bod addasrwydd yr ymgeisydd fel 'person addas a phriodol' yn cael ei benderfynu mewn gwrandawriad gerbron Is Bwyllgor.

Amlygwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi datgelu rhybudd 2014 a throstedd 2018 yn ei gais i adnewyddu ei drwydded.

Ym mis Hydref 2018, wrth gyflwyno ffurflen gais am drwydded yn Siop Gwynedd, Caernarfon, bu i'r ymgeisydd ymddwyn mewn modd annerbyniol drwy ymateb yn eiriol mewn modd personol ac ymosodol gyda Swyddog Trwyddedu. Yn yr un modd, mewn galwad ffôn gyda Rheolwr Llinell yr aelod staff cyhuddodd yr ymgeisydd yr aelod staff o ddweud celwydd. Ar y diwrnod canlynol, anfonwyd llythyr gan y Rheolwr Llinell at yr ymgeisydd yn amlinellu'r digwyddiad ac yn rhoi rhybudd iddo na fyddai unrhyw swyddog o'r Cyngor yn goddef ymddygiad o'r fath.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 yn nodi bod y term 'materion arall i'w hystyried' yn cynnwys rhybudd neu faterion eraill sydd yn berthnasol i 'addasrwydd a phriodolrwydd'.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.1 gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throsteddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff, yn rhestru ymhlith materion eraill, troseddau sydd yn ymwneud ag ymosodiad cyffredin a rhwystro. Mae paragraff 6.6 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar

Mae paragraff 17 o'r Polisi yn ymwneud a materion torri deddfau, is-ddeddfau ac amodau trwydded. Nodi'r yn 17.1 y byddai'n annhebygol rhoi trwydded i ymgeisydd os oes ganddo gollfarn am drosedd yn ymwneud a'r materion uchod oni bai bod cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiweddaraf.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y rhybudd a roddwyd yn 2014 yn ymwneud a thrais ac felly i'w ystyried o dan baragraff 6.5 o'r polisi. Er hynny, gyda'r gollfarn yn un hanesyddol (tu hwnt i ofynion y polisi o 3 blynedd) nid oedd yn sail i wrthod y cais. Er bod yr Is Bwyllgor wedi dod i'r farn nad oedd y gollfarn ar ei rinwedd ei hun yn ddigon i wrthod y cais, cydnabuwyd y byddai'r gollfarn, gyda chyfuniad o gollfarnau tebyg, yn gallu bod yn sail i wrthod o ystyried paragraffau 6.6 ac 16.1.

Nododd yr Is Bwyllgor bod methiant yr ymgeisydd yn 2014, 2015 a 2018 i ddatgelu rhybudd 2014 wrth adnewyddu ei drwydded yn torri amod trwydded. Gyda'r gollfarn olaf wedi digwydd tri mis yn ôl, rhagdybiwyd yr angen i ystyried paragraff 17.1. Tynnwyd sylw'r Is bwyllgor at y ffaith nad oedd collfarn 2018 wedi ei restru ar y datganiad DBS oherwydd nad oedd yn cael ei gydnabod fel trosedd gan Rheoliadau Cofnodion Cenedlaethol yr Heddlu (Troseddau Cofnodadwy) 2000 Er hynny amlygodd y Cyfreithiwr, er nad oedd cofnod o'r drosedd, roedd yn dal yn berthnasol i'r gwrandawriad.

Wrth ystyried digwyddiad Hydref 2018 fel ag yr amlinellwyd gan y Rheolwr Trwyddedu, daeth yr Is Bwyllgor i'r penderfyniad, gan nad oedd yr ymgeisydd wedi cymryd unrhyw gamau i ddadleu yn erbyn y cyhuddiadau bod yr ymddygiad yn un treisgar. Ystyriwyd rhybudd 2014 a digwyddiad Hydref 2018 fel rhai o natur dreisgar, ac wedi digwydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf. O ganlyniad, roedd paragraff 6.6 o'r polisi yn cael ei ystyried. Yn ychwanegol, roedd rhybudd 2014, collfarn 2018 a digwyddiad Hydref 2018 yn gyfres o ail droseddu o fewn 10 mlynedd, yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. Eto, roedd hyn yn arwain at benderfyniad yr Is bwyllgor i ystyried paragraff 16.1.

Amlygodd y Cyfreithiwr, er bod rhesymau clir dros wrthod y cais, nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi ar yr argymhellion os yw ffeithiau'r achos yn cyfiawnhau hynny.

Nodwyd bod 'addas a phriodol', ymysg materion eraill, yn gofyn am asesiad cymhwysedd busnes yr ymgeisydd, fyddai'n cynnwys edrych ar y gofal sydd yn cael ei roi wrth gyflwyno gwaith papur i adnewyddu trwydded. Methodd yr ymgeisydd i nodi'r rhybudd 2014 dair gwaith sydd yn awgrymu agwedd anhrefnus a ffwrdd a hi tuag at waith papur ac ymgais i guddio gwybodaeth berthnasol.

Nodwyd bod 'addas a phriodol' hefyd yn rhoi ystyriaeth os yw ymgeisydd yn gallu ymddwyn mewn modd sydd ddim yn fygythiol o dan amgylchiadau heriol. Dylai ymgeisydd fod ar gallu i ymddwyn mewn modd digynnwrf a thawel mewn anghydfod neu bydd amheuaeth yn y modd y mae'n ymdrin â chwsmeriaid. Petai'r ymgeisydd wedi ymddwyn mewn modd priodol Hydref 2018, byddai rhybudd 2014 yn fater unigol ac felly ni fyddai angen ystyried paragraff 6.6 (aildroseddu). Nododd yr Is Bwyllgor y dylai'r ymgeisydd, yn y dyfodol, wrth geisio am drwydded, drin swyddogion y Cyngor gyda pharch.

Wedi ystyried yr holl elfennau, nid oedd yr Is Bwyllgor wedi eu darbwyllo y dylid gwyro oddi ar y rhagdybiaeth o wrthod y cais. O ganlyniad, gwrthodwyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:40am a daeth i ben am 12:10pm

---

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 28.01.2019

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes a Jason Wayne Parry

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Alun M Roberts (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau ac adroddiad trwydded gyrru yr ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau (DVLA). Amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi nodi collfarn am drosedd o dan adran 4 Deddf Trefn Cyhoeddus 1986 ar ei ffurflen gais nad oedd wedi ei gynnwys ar y cofnod DBS.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd pob sefyllfa yn fanwl yn eu tro ac amlinellodd na dderbyniodd gollfarn am fethu rhoi gwybodaeth ynghylch hunaniaeth gyrrwr ond hysbysiad cosb benodedig a phwyntiau ar ei drwydded. Ategodd hefyd nad oedd yn gyrru cerbydau yn rheolaidd ac mai gwaith gyrru wrth gefn y byddai yn wneud fwyaf.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad trwydded gyrru yr ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn yn 2012 am drosedd o dan Adran 4 o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Ym mis Hydref 2016, derbyniodd 4 pwynt cosb ar ei drwydded gyrru am dorri terfyn cyflymder ar ffordd gyhoeddus. Ystyriwyd 6 pwynt ychwanegol a dderbyniodd ym mis Mawrth 2018 am dramgwyddo gofynion ynghylch rheoli cerbyd, ffonau symudol ac ati ynghyd a 6 pwynt pellach am fethu a rhoi gwybodaeth ynghylch hunaniaeth gyrrwr.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Ystyriwyd paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae MS90 - methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth gyrrwr yn cael ei gynnwys. Nodir ym mharagraff 12.3 y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os yw'r ymgeisydd wedi cyflawni trosedd traffig difrifol unigol ac nad ydyw wedi bod yn rhydd o gollfarn am oleiaf 6 mis.

Ystyriwyd amod 6 o amodau trwydded gyrru cerbyd hacni a hur preifat, lle nodi'r bod gofyn i gyrrwr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ar ôl derbyn collfarn am unrhyw drosedd dan ddeddfwriaeth traffig. Os canfyddir bod tor-amod, gall paragraff 17.1 o'r Polisi fod yn berthnasol lle amlinellir na fydd cais fel rheol yn cael ei ganiatáu oni bai bod 12 mis wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o hynny.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y gollfarn o 2012 yn ymwneud a thrais, ond gan fod cyfnod o 6 mlynedd wedi pasio ers y digwyddiad (tu hwnt i gyfnod 3 blynedd) nid oedd paragraff 6.5 yn berthnasol ac felly roedd yr Is bwyllgor yn fodlon nad oedd yn sail i wrthod y cais.

Wrth ystyried yr **arnodiadau / ardystiadau** (endorsements) gyrru, daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad nad oeddynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwrthod, er yn destun pryder. Amlygwyd bod paragraff 13.1 o'r Polisi yn diffinio 'mân droseddau traffig' fel troseddau lle mae'r ymgeisydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Er hynny, nid yw'n dilyn bod trosedd sydd yn denu 4 pwynt cosb neu fwy yn cyfrif fel trosedd traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Diffinnir 'trosedd traffig difrifol' ym mharagraff 12.2 ac nid yw'r materion gyrru o Hydref 2016 a Mawrth 2018 yn disgyn o fewn y diffiniad hwnnw. At ddibenion y polisi, ystyriwyd mai arnodiaid Mai 2018 yn unig oedd yn ymwneud a throsedd traffig difrifol a gan fod yr arnodiaid yn ddigwyddiad o dros 10 mis yn ôl (tu hwnt i'r cyfnod 6 mis), nid oedd y gwaharddiad o dan baragraff 12.3 yn sefyll.

Yn dilyn cadarnhad gan yr ymgeisydd mai dirwy drwy rybudd cosb benodedig a phwyntiau yn unig a dderbyniodd mewn perthynas â'r arnodiaid (ac nid collfarn droseddol), nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod amod 6 o'r drwydded gyrru cerbyd hacni a hurio preifat, yn dechnegol wedi ei dorri. Er hynny, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn, fel ymarfer da, y dylid adrodd ar unrhyw fater ac argymhellwyd, bod yr ymgeisydd yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o unrhyw arnodiaid i'r dyfodol.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

## **6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Gwahoddwyd cynrychiolydd / cyflogwr yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a chynnig eglurhad am y troseddau gyrru. Amlygodd bod Llys Ynadon Caernarfon wedi caniatáu i'r ymgeisydd gadw ei drwydded oherwydd ei amgylchiadau personol. Eglurodd y byddai nifer o'r pwyntiau ar y drwydded wedi ei diddymu erbyn diwedd mis Chwefror fyddai, o ganlyniad yn gadael cyfanswm o 5 pwynt. Amlygodd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad oedd wedi derbyn cwynion am Mr A ac ategodd ei fod yn gymeriad hoffus, cwrtais a dibynnol.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD** bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawriad
- llythyr geirda
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad trwydded gyrru yr ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am oryrru ar ddau achlysur ym mis Ionawr 2016 (daeth y pwyntiau hyn i ben yn Ionawr 2019). Yn mis Chwefror 2016 derbyniodd 3 pwynt am oryrru (dod i ben Chwefror 2019) a pum pwynt pellach ym mis Gorffennaf 2016 (dod i ben Gorffennaf 2019). Nid oedd collfarnau, rhybuddion nac arnodiadau eraill gan yr ymgeisydd.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Amlygwyd nad yw SP30 (goryrru) yn cael ei gynnwys yn y rhestr ac ymhellach ym mharagraff 13.1 nodir bod troseddau traffig sydd heb eu rhestru yn y Polisi yn cael eu trin fel 'mân droseddau traffig'. Ym mharagraff 13.3 nodir y gall mwy nag un 'mân drosedd traffig' (gan gynnwys goryrru) arwain at wrthod cais ac os oes mwy na dwy drosedd a/neu gyfanswm 6 pwynt ar y drwydded, caiff gyrrwr trwyddedig ei gyfeirio at Is-bwyllgor.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y 4 digwyddiad o oryrru yn 2016 yn amlygu bod paragraff 13.3 yn berthnasol i'r drafodaeth. Er hynny, nid yw'r paragraff yn nodi y dylid gwrthod y cais ac mai opsiwn posib yw hynny. Penderfynwyd mai trothwy yw 'dau drosedd a/neu 6 pwynt ar y drwydded' ar gyfer cyfeirio ac nid trothwy i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Cytunodd yr Is-bwyllgor bod y cais wedi cyrraedd trothwy cyfeirio oherwydd bod yr ymgeisydd wedi cael ei ddal yn goryrru pedair gwaith yn 2016 gydag 8 pwynt yn fyw ar ei drwydded. Serch hynny, nodwyd y byddai 3 pwynt arall yn cael eu diddymu cyn diwedd mis Chwefror fyddai yn gadael cyfanswm o 5 phwynt ar y drwydded. Ystyriwyd hefyd mai pwyntiau yn unig a dderbyniodd yr ymgeisydd ac nid collfarnau troseddol am oryrru.

Wedi pwyso a mesur y wybodaeth a gyflwynwyd, nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y troseddau goryrru mor ddifrifol fel bod angen gwrthod y cais.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:45pm

# Eitem 6

<b>PWYLLGOR</b>	<b>PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>11 EBRILL 2019</b>
<b>TEITL:</b>	<b>UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>CYMERADWYO CYNNIG GAN Y DIWYDANT I GODI'R UCHAFSWM PRISIAU</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD</b>

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

- 1.1 Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ( Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gosod dyletswyddau rheoleiddio ar yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredu uchafbris a all gael ei godi ar y cyhoedd wrth deithio mewn cerbydau hacni oddi fewn i'r Sir . Mae'r ddeddf yn caniatáu darparu tabl prisiau, ac mae hyn ynghyd a'r gofyniad statudol i ddefnyddio cloc tacsî (taxi meter) yn caniatáu mecanwaith i reoleiddio'r prisiau a godir ac i ddiogelu buddiannau'r cyhoedd.
- 1.2 Mae'n ofynnol fod unrhyw gais am newid yr uchafbris a godir yn cael ei gyflwyno gan y diwydiant . Fe dderbyniwyd cais yn ddiweddar gan Mr John Pritchard, perchennog cwmni tacsî i adolygu'r prisiau. Mae'n ofynnol o dan adran 65 o'r Ddeddf fod unrhyw argymhellid i newid y prisiau yn cael ei hysbysebu mewn papur lleol am o leiaf 14 diwrnod i ganiatáu i unrhyw wrthwynebiad i gael ei ystyried.
- 1.3 Nid yw'r uchafbris yn berthnasol i deithiau mewn cerbydau hurio preifat , a drefnir ymlaen llaw.
- 1.4 Fe gafwyd cais llwyddiannus i gynyddu'r uchafbris yn 2011, ac nid oes newid wedi bod ers hynny. Gweler atodiad 1 am dabl o'r uchafbrisiau presennol.

## 2 FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR GOSTAU BUSENSAU TACSI

- 2.1 Mae'r Cyngor dros y 6 mlynedd diwethaf wedi bod yn gorfod cynyddu'r ffioedd a godir am drwyddedau gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr tacsî er mwyn ceisio adennill costau prosesu a gweinyddu trwyddedau, ac mae hyn wedi cynyddu baich ariannol ar y diwydiant.
- 2.2 Er nad oes cynnydd mewn costau tanwydd wedi bod ar gyfartaledd ers 2011, mae costau yswiriant priodol ar gyfer cerbydau trwyddedig wedi cynyddu.

## 3. CYNNIG AR GYFER UCHAFBRIS NEWYDD AR GYFER TEITHIAU CERBYD HACNI

- 3.1 Fe welir o'r tabl isod yr uchafbris sydd yn cael ei weithredu ar gyfer teithiau mewn cerbydau hacni dros 6 sir y Gogledd . Er cymhariaeth, mae'r uchafbris arfaethedig ar gyfer Gwynedd wedi ei gynnwys hefyd.

**Tabl – pris cyfatebol am 2 filltir o daith**

Gwynedd Cyfredol	Gwynedd arfaethedig	Cyfartaledd cyfredol 6 sir	Môn	Conwy	Fflint	Dinbych	Wrecsam
£5.00	£6.00	£5.90	£6.00	£5.20	£6.20	£6.00	£7.20

- 3.2 Mae'r cynnydd arfaethedig ar gyfer uchafbris taith cerbyd hacni wedi ei gyfrifo wrth ychwanegu chwyddiant ar gyfartaledd o 2.6% y flwyddyn at y pris taith y filltir a bennwyd yn 2011. Mae ffigyrau Banc Lloegr wedi eu defnyddio i'r pwrpas.
- 3.3 Ni argymhellir fod costau ychwanegol megis cyfradd amser disgwyl , neu gostau cario bagiau ychwanegol etc yn cael eu newid. Gweler atodiad 2 o'r adroddiad am fanylion llawn, a chymhariaeth gyda siroedd eraill y Gogledd.
- 3.4 Mae'n bwysig nodi nad oes rhaid i gwmni tacsï godi yr uchafbris am deithiau mewn cerbyd hacni. Mae llawer o gwmnïau yn dewis peidio ac yn codi prisau sydd yn is ac yn unol a'r hyn a ystyrir i fod yn gyfradd cystladeuol.

#### **4. YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT**

- 4.1 Os fydd y Pwyllgor hwn yn derbyn yr argymhelliad; fe fyddwn yn ymgynghori ar y cynnig am 14 diwrnod mewn papur lleol; gyda'r bwriad fod yr uchafbris newydd yn weithredol o'r dyddiad bydd y rhybudd yn dod i ben.
- 4.2 Os oes gwrthwynebiad i'r cynnig yn dod i law yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad; fe fydd yr argymhelliad yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor hwn er mwyn i sail y gwrthwynebiad dderbyn ystyriaeth; ac ni fydd yn dod yn weithredol hyd nes y ceir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor .

#### **ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchafbris gall y diwydiant tacsï godi am deithiau mewn cerbyd hacni yn y Sir.



## CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

### PRISIAU CLUDO CERBYD HACNI / HACKNEY CARRIAGE FARE

yn weithredol trwy ardal y Cyngor o 1af Tachwedd 2011  
in operation throughout the area of the Council as from 1<sup>st</sup> November 2011

#### (1) Milltiroedd / Mileage

<i>Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir</i> If the distance does not exceed one mile for the whole distance.....	£3.00c/p
<i>Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir:- am y filltir cyntaf</i> If the distance exceeds one mile:- for the first mile.....	£2.50c/p
<i>Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny</i> For each subsequent one-tenth of a mile or uncompleted part thereof.....	£0.25c/p

#### (2) Amser Disgwyl / Waiting Time

<i>Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny</i> For each period of 1 minute or uncompleted part thereof.....	£0.25c/p
--	----------

#### (3) Taliadau Ychwanegol / Extra Charges

- a) *Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7 y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Wyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan* ..... *50% o'r cyfradd dâl uchod*  
For hirings between midnight and 7.00a.m. on any day or at any time on Bank Holidays *except* Christmas Day and New Year's Day..... *50% of the above rates*
- Dydd Nadolig a Dydd Calan* ..... *100% o'r cyfradd dâl uchod*  
Christmas Day and New Year's Day ..... *100% of the above rates*
- b) *Am bob cês a bag yn ychwanegol at un cês a gludir tu allan i'r caban teithwyr*  
For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment of the carriage ..... *£0.30c/p*
- c) *Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith*  
For each person in excess of one of the whole journey ..... *£0.40c/p*
- ch) *Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod*  
Carriage of animals, i.e. Dogs and Cats..... *£1.20c/p*
- Nodir: Fod dim tâl i'w godi am gludo Ci Tywys***  
**Note: No Charge shall be made for the carriage of Guide Dogs.**
- d) *Baeddu'r Cerbyd*..... *£45.00c/p*  
Soiling the Vehicle

Dafydd Williams  
*Pennaeth Adran Amgylchedd/Head of Environment Department*  
*Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd/Public Protection Services*

Cyngor Gwynedd Council  
Swyddfeydd y Cyngor / Council Offices  
Stryd y Jêl / Shirehall Street  
CAERNARFON  
Gwynedd LL55 1SH

Tabl cymharu prisiau cludo cerbyd Hacni

Ychwanegu 20% chwyddiant Prisiau cyfartaledd (Average)

Milltiroedd	Gwynedd	Gwynedd Prisiau newydd	Prisiau cyfartaledd y siroedd	Ynys Môn	Conwy	Sir y Fflint	Sir Ddinbych	Wrecsam
Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir	£ 3.00	£ 3.60	£ 3.08	£ 3.00	£ 2.80	£ 3.10	£ 3.00	£ 3.60
Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir, am y filltir cyntaf	£ 2.50	£ 3.00	£ 2.90	N/A	£ 2.60	£ 3.10	N/A	£ 3.60
Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny	£ 0.25	£ 0.25		£ 0.28	£ 0.26	£ 0.16	£ 0.20	£ 0.19
Am bob 216 llath ar ol hynny neu ran o hynny	N/A	N/A		N/A	N/A	£ 0.20	N/A	N/A
Am bob 184 llath	N/A	N/A		N/A	N/A	N/A	N/A	£ 0.20

Amser disgwyl								
Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny	£ 0.25	£ 0.25		£ 0.25	£ 0.20	£ 0.20	£ 0.30	£ 0.24
Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny (rhwng 12yh a 6yb)	N/A	N/A		N/A	N/A	N/A	£ 0.40	N/A

Taliadau ychwanegol								
Am logi'r cerbyd rhwng 12yh - 7yb unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser Wyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan (12yh a 6yb i Sir y Fflint, Dinbych a Wrecsam)	+50% o'r cyfradd uchod	£ 5.40	£ 4.63	+100% o'r cyfradd uchod (50% ar Wyl y Banc)	+50% o'r cyfradd uchod	+50% o'r cyfradd uchod	+50% o'r cyfradd uchod	£3.60 (ychwanegu 10% tu allan i'r fwrddistref a siwnreiau a llogwyd o flaen llaw)
Dydd Nadolig a Dydd Calan (Dydd Nadolig a Gwener y Groglith yng Nghonwy) cynhwysir Gwyl San Steffan yn Sir Fflint, Dinbych a Wrecsam ac Ynys Môn)	+100% o'r cyfradd uchod	£ 7.20	£ 8.20	+100% o'r cyfradd uchod	+100% o'r cyfradd uchod	+100% o'r cyfradd uchod	+50% o'r cyfradd uchod	+75% o'r cyfradd uchod
Am bob taith sy'n dechrau rhwng 6yh a hanner nôs ar Noswyl y Nadolig / Noswyl Blwyddyn Newydd	N/A	N/A		N/A	+50% o'r cyfradd uchod	N/A	N/A	N/A
Am bob ces a bag yn ychwanegol ar un ces a gludir tu allan i'r caban teithwyr	£ 0.30	£ 0.30		£ 0.25	£ 0.20	£ 0.20	£ 0.20	£ -
Am bob person yn fwy nag un, am cyfan o'r daith (fwy na dau yn Sir y Fflint)	£ 0.40	£ 0.40		£ 0.40	£ 0.20	£ 0.15	£ -	£ -
Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod	£ 1.20	£ 1.20		£ 1.20	£ 0.30	£ 0.50	£ 0.20	£ -
Baeuddu'r cerbyd	£ 45.00	£ 45.00		£ 45.00	£ 100.00	Heb nodi	£ 100.00	£ 50.00

# Eitem 7

<b>PWYLLGOR</b>	<b>PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>11 EBRILL 2019</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CYFLWYNO CYLCH GORCHWYL AR GYFER YSTYRIED CYNNWYS POLISI TRWYDDEDU TACSIS UNEDIG DRAFT</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>SEFYDLU GRWP TASG A GORFFEN O AELODAU'R PWYLLGOR I YSTYRIED CYNNWYS Y POLISI TRWYDDEDU TACSI UNEDIG DRAFFT</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD</b>

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

- 1.1 Fe gymeradwywyd y polisiau Trwyddedu tacsî cyfredol parthed gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr gan y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 22 Hydref 2010 a daeth yn weithredol o 1 Rhagfyr 2010.
- 1.2 Ers 2010, mae man-newidiadau wedi eu gwneud i'r Polisi trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni /Hurio Preifat gyfunol yn 2014, yn ogystal ag adolygu'r polisi 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr'
- 1.3 Penderfynodd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar y 11fed o Fedi 2017 gymeradwyo cyfeiriad cyffredinol prif gynnigion ar gyfer adolygu y polisiau presenol mewn perthynas a thrwyddedu tacsî a chreu polisi Trwyddedu tacsî unedig newydd; a fyddai yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn ei gymeradwyo yn derfynol gan y Pwyllgor hwn. Fe dderbyniwyd fod angen diweddarau ac adolygu'r polisiau Thrwyddedau Tacsî yn dilyn y cynnydd yn y nifer o geisiadau i drwyddedu cerbydau yn groes i'r polisi ac yn sgil y Ddeddf Dadreoleiddio 2015.
- 1.4 Fe gofiwch fod cynnig wedi ei dderbyn i greu 'Polisi Tacsî Cyngor Gwynedd' sydd yn unedig, yn lle tair dogfen polisi ar wahân sydd yn bodoli'n bresennol. Fe fydd y polisi unedig hefyd yn cynnwys polisi 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' canllawiau ar gyfer penderfynu os yw person yn 'addas a phriodol' i fod yn yrrwr neu weithredwr. Fe fydd y polisi Unedig hefyd yn cynnwys amodau trwydded a safon cerbydau.
- 1.5 Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor hwn ar y 11 o Ragfyr 2017; fe gymeradwywyd yr argymhelliad i weithredu gofynion adran 165, 166 a 167 o'r Ddeddf Gydraddoldeb 2010 mewn perthynas a darpariaeth cerbydau tacsî sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Fe gytunwyd y byddai polisi yn cael ei ddarparu, ynghyd a meini prawf ar gyfer eithriadau; a chreu gweithdrefnau ar gyfer delio gyda gyrwyr na allent gydymffurfio a'r dyletswyddau a osodir yn y Ddeddf am resymau meddygol neu gorfforol. Fe gytunwyd y byddai'r polisi a'r gweithdrefnau mewn perthynas a gweithredu darpariaethau cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn cael ei gynnwys yn y polisi Trwyddedu tacsî unedol newydd.
- 1.6 Un o'r materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod cynnar o wneud ymchwil ar gyfer adolygu'r polisiau oedd bodolaeth is-ddeddfau; nad oeddent wedi eu hamlygu yn yr adolygiad 2010 o'r polisiau tacsî; ond a gyfeiriwyd atynt yn 2003. Pwrpas yr is-ddeddfau yw sicrhau amodau i drwyddedau gyrwyr cerbydau hacni. Fe dderbyniwyd cadarnhad gan yr Uned Gyfreithiol fod yr is-ddeddfau dal mewn lle; ac felly fe fydd rhaid sicrhau er trefn a chywirdeb fod y r is-ddeddfau yn cael eu cynnwys yn y polisi Tacsî unedol newydd

- 1.7 Yn unol a'r drafodaeth a gafwyd yn ystod cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn yn mis Rhagfyr 2018; fe gytunwyd cyflwyno cylch gorchwyl i'r Pwyllgor er mwyn sefydlu cyfeiriad ar gyfer trafodaeth a phenderfyniad ar y polisi Trwyddedu tacsï unedig newydd
- 1.8 Yn 2016 fe fu i brosesau'r Uned Trwyddedu fynd trwy ymarferiad adolygiad Ffordd Gwynedd - ac fe fydd y polisi ac amodau perthnasol arfaethedig yn dilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd ac yn gwireddu pwyntiau gweithredu a luniwyd yn dilyn yr ymarferiad.

## 2.0 CWMPAS Y CYLCH GORCHWYL

- 2.1 Fe gyflwynwyd prif newidiadau'r polisi unedig draft i'r Pwyllgor hwn eisioes er trafodaeth yn mis Medi 2017 – fel a ganlyn -
- Cynnig 1:** Fe fydd statws 'Hawliau Taid' perchnogion cerbydau hacni Arfon yn cael ei dynnu o'r polisi a bod holl berchnogion cerbydau hacni yn ddarostyngedig i'r un amodau a gofynion cerbyd.

Fe fydd y gofynion ar gyfer holl gerbydau ym mhob parth yn cael eu cysoni er mwyn creu polisi tryloyw, cyfartal a perthnasol i holl berchnogion cerbydau tacsï ar draws y sir.

**Cynnig 2:** Ym mhob parth, rhaid cais i drwyddedu cerbyd am y tro cyntaf fel Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat fod mewn perthynas â cherbyd sy'n llai na 6 mlwydd oed ar y dyddiad pan fydd y cais cyflawn wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu.

**Cynnig 3:** Ym mhob parth, rhaid cais i adnewyddu trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat fod mewn perthynas â cherbyd sy'n llai na 12 mlwydd oed ar y dyddiad pan ddaw'r drwydded gyfredol i ben.

**Cynnig 4:** Bydd Cyngor Gwynedd yn caniatáu adnewyddu trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat y tu hwnt i'r terfyn oedran uchaf o 12 mlynedd os gellir dangos bod y cerbyd mewn 'cyflwr eithriadol' da. Fe fydd disgwyl i berchennog cerbyd ddarparu tystiolaeth reolaidd o addasrwydd a diogelwch y cerbyd.

**Cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.** Yn hanesyddol mae'r canran o gerbydau hacni sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn wedi bod yn 13%. , a gellir cadarnhau fod y canran yn parhau i fod yn 13%

Bydd y Cyngor yn ceisio cynnal y gymhareb bresennol o 13% o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

**Cynnig 5:** Bydd yr holl berchnogion yn cael eu hannog i drwyddedu cymaint o gerbydau sy'n hygyrch i gadair olwyn y maent yn ystyried yn angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd Cyngor Gwynedd yn gosod gofyniad bod rhaid i o leiaf 1 cerbyd hacni mewn fflyd o 7 cerbyd hacni fod yn gerbyd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Felly os yw maint y fflyd yn 14 cerbyd hacni byddai gofyn i o leiaf 2 o'r 14 cerbyd fod yn gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

- 2.2 Fe fydd y polisi unedol newydd hefyd yn cyfarch pwyntiau ychwanegol a godwyd gan yr aelodau yn ystod y drafodaeth yn mis Medi 2017.
- 2.3 Yn ogystal a'r prif gynnigion mwyaf dadleuol sydd eisioes wedi eu trafod – fe wahoddir trafodaeth ar y materion canlynol –
- 2.4 **Egwyddorion Trwyddedu**
- 2.5 Yn unol a pholisiau Trwyddedu eraill sydd wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor – megis y Datganaid o o Bolisi Trwyddedu a Datganiad o Bolisi Hapchwarae – fe gyflwynir egwyddorion Trwyddedu fydd yn sail i 'r Polisi Trwyddedu tacsï unedol newydd. **Rydym yn awyddus i gael barn yr aelodau am weithredu i hyrwyddo'r egwyddorion canlynol –**
- **Diolgewlch cyhoeddus**
  - **Atal trosedd ac anrhefn**
  - **Atal niwed a gwahaniaethu**
  - **Hyrwyddo diwydiant tacsï proffesiynol a dibynadwy**
- 2.6 **Ceisadau am drwydded gyrru tacsï**
- 2.7 **cyrsiau codi ymwybyddiaeth** - Mae 'r Uned Drwyddedu wedi bod yn gweithredu i hyrwyddo pob gyrrwr tacsï i wneud cwrs codi ymwybyddiaeth i faterion diogelu plant ac oedolion bregus eisioes. Yn dilyn trafodaeth gyda chwi'r aelodau - rydym yn bwriadu hwyluso hyblygrwydd yn y polisi newydd i gyflwyno'r angen i ymgeiswyr am drwyddedau tacsï i ymgymeryd ac unrhyw gyrsiau hyfforddiant a ystyrir i fod yn briodol. **Gwahoddir barn yr aelodau ar hyn.**
- 2.8 **Atgyfnerthu meini prawf addas a phriodol** – fe gyflwynir anghenion penodol mewn perthynas a gwiriadau statudol a gyflwynwyd gan y Ddeddf Mewnfudo 2016. Hefyd gwahoddir barn yr aelodau ar gynnwys yr angen am ddarparu gwybodaeth mewn ffurf arbennig yn y polisi – er enghraifft cyflwyno amod fod rhaid i yrrwr tacsï dansgrifio i wasanaeth diweddar ar-lein y Gwasnaeth DBS.
- 2.9 Mae'r Sefydliad Trwyddedu (Institute of Licensing ) wedi cyhoeddi dogfen yn mis Ebrill 2018 (*Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the hackney and private hire trades*) sydd yn rhoi arweiniad i swyddogion ac aelodau ar wneud penderfyniad ar addasrwydd ymgeiswyr yn y diwydiant hacni a hurio preifat. **Gwahoddir barn yr aelodau ar y ddogfen; ac os y dylid ei mabwysiadu fel canllaw ychwanegol iw ystyried ochr yn ochr a Pholisi 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' y Cyngor**
- 2.10 **Ffioedd** Fe gyflwynir yr egwyddor o wneud taliad am wneud cais a thaliad am drwydded. Golyga hyn y gellir rhoi ad-daliad i ymgeisydd aflwyddiannus am y ffi sydd yn berthnasol i brosesu a chyflwyno'r drwydded
- 2.11 **Ceisadau am drwydded cerbyd**
- 2.12 **Addasrwydd ymgeisydd am drwydded cerbyd** - Fe gyflwynir yr angen i berchennog y cerbyd, sef y sawl fydd yn gwneud cais am drwydded cerbyd tacsï - i gyflwyno

tystiolaeth gyda'r cais i brofi eu bod yn berson 'addas a phriodol' . Fe fydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno dogfennau perthnasol i brofi hyn , gan gynnwys tystysgrif DBS.  
**Gwahoddir barn yr aelodau ar hyn**

- 2.13 **Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus** - Bwriedir cyflwyno'r angen i ymgeisydd am drwydded cerbyd i gyflwyno tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyda'r dogfennau eraill sy'n angenrheidiol i brofi addasrwydd y cerbyd. **Gwahoddir barn yr aelodau am hyn**
- 2.14 **Oedran cerbyd** - Ni fwriedir cyfyngu ceisiadau am drwydded cerbyd hacni neu hurio preifat i gerbydau sydd yn 3 neu 6 oed fel sydd yn y polisi cyfredol. Bwriedir gofyn barn yr aelodau ar ddiddymu oedran arbennig ar gyfer gwneud cais am drwydded cerbyd - ond cadw'r uchafswm oedran o 12 mlynedd er mwyn sicrhau na thrwyddedir cerbydau sydd dros 12 oed ; nac unrhyw gerbyd nad yw yn addas ac yn ddiogel.
- 2.15 **Profion cerbydau** - bwriedir parhau i weithredu trefn lle mae cerbyd sydd yn cyrraedd 10 oed yn cael Prawf mecanyddol Cyngor ychwanegol hanner ffordd drwy gyfnod y drwydded; ac mewn canolfan prawf a bennir gan y Cyngor. Yn ogystal, bwriedir cyflwyno amod i sicrhau fod profion mecanyddol yn cael eu cyflawni gan orsafoedd prawf/modurdai nad ydynt gydag unrhyw gysylltiad gyda'r busnes tacsï. **Gwahoddir barn yr aelodau ar hyn**
- 2.16 **Ceisiadau am drwydded gweithredwr**
- 2.17 **Gwiriadau Deddf Mewnfudo 2016** - fe gyflwynir yr angen i wneud gwiriadau hunaniaeth ar ymgeiswyr yn unol â'r Ddeddf. Fe fydd disgwyl i ymgeisydd am drwydded gweithredwr brofi eu bod yn berson 'addas a phriodol' yn yr un modd a gyrwyr a pherchnogion cerbyd; ac fe ddisgwylir iddynt gyflwyno dogfennau perthnasol er mwyn gwneud hynny; yn ogystal ag ymddangos mewn person i gyflwyno eu cais. **Gwahoddir barn yr aelodau ar y dogfennau a'r wybodaeth a ddisgwylir i ymgeisydd am drwydded gweithredwr i gyflwyno gyda cais.**

### 3.0 **Y CAMAU NESAF**

- 3.1 Gofynnir i'r aelodau enwebu cynrychiolwyr o blith y Pwyllgor i gymryd rhan yn y Grŵp Tasg a gorffen bydd angen ei sefydlu ar gyfer ystyried y polisi drafft .
- 3.2 Gofynnir i'r aelodau ystyried y pwyntiau uchod sydd wedi eu cynnwys yn y cylch gorchwyl a chynnig unrhyw faterion ychwanegol a ddylid eu cynnwys yn y Cylch Gorchwyl , ar gyfer trafodaeth a phenderfyniad gan y Grŵp Tasg a Gorffen .
- 3.3 Unwaith fydd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod a sylwadau wedi eu hystyried; fe fydd y Polisi drafft yn destun Asesiad effaith cydraddoldeb cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.
- 3.4 Fe fydd unrhyw sylwadau yn dilyn yr ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn, cyn y gwneir penderfyniad terfynol ar gymeradwyo'r Polisi.